Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Clinig Caswell – Ward Newton

## Dyddiad y gweithgarwch: 25 Awst 2020

Dyddiad cyhoeddi: 22 Medi 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80082-212-2

WG41024

(h) Hawlfraint y Goron 2020

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Glinig Caswell – Ward Newton fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â Rheolwr Ward Newton ar 25 Awst 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

## Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; pa newidiadau mae wedi'u gwneud i sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom adolygu polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod Ward Newton wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Dim ond un achos a gadarnhawyd o COVID-19 a gofnodwyd gan Ward Newton – nid oes unrhyw afiechydon heintus eraill wedi cael eu nodi ymhlith y cleifion na'r staff. Cawsom wybod bod cynlluniau wrth gefn wedi cael eu rhoi ar waith yn gynnar a bod ystafell ynysu ar gael ar Ward Penarth lle y gellid rhoi gofal priodol i gleifion yr amheuid bod ganddynt COVID-19 er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw achosion o COVID-19 ymhlith y cleifion na'r staff.

Cawsom wybod bod archwiliadau yn cael eu cynnal bob nos er mwyn sicrhau bod digon o PPE ar gael. Roedd y staff yn cael hyfforddiant a sgyrsiau addysgol ar PPE priodol a oedd yn cynnwys diosg a gwaredu PPE yn ddiogel. Pan fo angen, caiff PPE ei ddefnyddio gan yr holl staff, ymwelwyr a chleifion. Caiff stoc ychwanegol o PPE ei storio yn ganolog fel bod pob ward yn gallu cael gafael arno'n hawdd, a chaiff y stoc ei wirio yn ddyddiol. Yn ystod ein trafodaethau, ni thynnwyd sylw at unrhyw broblemau mewn perthynas â PPE.

Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant penodol ar COVID-19 a oedd yn cynnwys hyfforddiant ffitio masgiau FFP3 ag anadlydd a hyfforddiant cynnal bywyd.

Mae'r cleifion a'r staff yn cael diweddariadau rheolaidd am COVID-19 yn ystod cyfarfodydd dyddiol. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19. Mae posteri mewn perthynas â golchi dwylo a gwybodaeth am COVID-19 ar gael ar hysbysfyrddau ar Ward Newton.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod cynlluniau wrth gefn wedi cael eu rhoi ar waith yn gynnar a bod ystafell ynysu ar gael ar Ward Penarth lle y gellid rhoi gofal priodol i gleifion yr amheuid bod ganddynt COVID-19 er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Cawsom wybod bod claf a oedd yn dangos symptomau ar y ward ar ddechrau'r pandemig

ac, o ganlyniad, gofynnwyd i'r cleifion hunanynysu yn eu hystafelloedd. Roedd modd i'r cleifion gysylltu drwy ddull amgen gan ddefnyddio ffonau symudol a oedd yn galluogi'r cleifion i ffonio'r swyddfa nyrsio er mwyn diwallu eu hanghenion. Roedd meddyginiaeth a phrydau yn cael eu cludo wedyn i ystafelloedd y cleifion, gyda'r staff yn cydymffurfio â'r rheol cadw pellter o ddau fetr ac yn gwisgo PPE. Cawsom wybod bod y system a roddwyd ar waith wedi bod yn llwyddiannus wrth leihau a rheoli achosion o COVID-19 gan nad oedd unrhyw gleifion eraill nac aelodau o'r staff wedi cael eu heintio.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r holl gleifion sy'n defnyddio'r ystafell fwyta sicrhau eu bod yn golchi ac yn diheintio eu dwylo cyn mynd i mewn i'r ystafell fwyta. Mae mesurau cadw pellter cymdeithasol hefyd ar waith.

Cawsom wybod bod y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol yn ystod yr amser hwn a bod cyflwyno Netflix wedi gwneud y grŵp cleifion yn agosach. Roedd gliniaduron ac iPads yn cael eu defnyddio i barhau â sesiynau therapi, ac roedd y rhain hefyd yn cael eu defnyddio gan y cleifion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Roedd modd i'r cleifion gadw mewn cysylltiad â'r tîm amlddisgyblaethol o bell drwy ddulliau rhithwir. Roedd cyfarfodydd y tîm clinigol yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir a chawsom wybod bod y cleifion yn defnyddio'r dulliau newydd o gysylltu â'r tîm clinigol ac yn addasu iddynt yn dda.

Roedd y cleifion hefyd yn defnyddio'r iPads a'r ffonau symudol a roddwyd iddynt i gadw mewn cysylltiad â gwasanaethau proffesiynol allanol, gan gynnwys y gwasanaeth eirioli.

Oherwydd y cyfyngiadau symud, rhoddwyd y gorau i ryddhau'r cleifion o'r ysbyty dros dro ac ni chaniatawyd ymwelwyr yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Cawsom wybod bod y cleifion wedi teimlo rhwystredigaeth a'u bod wedi teimlo'n unig ac yn ofnus i gychwyn. Er mwyn lleddfu pryderon y cleifion, cawsom wybod bod y tîm amlddisgyblaethol wedi bod ar gael i'r cleifion bob awr o'r dydd a'r nos er mwyn rhoi cefnogaeth a thawelwch meddwl iddynt yn ystod y cyfnod anodd hwn.  Cawsom wybod bod y cleifion wedi nodi pa mor werthfawr oedd cael mynediad ychwanegol at y tîm amlddisgyblaethol, a'r dechnoleg i'w helpu i gyfathrebu ag eraill.

Bellach, mae'r cyfyngiadau o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty dros dro a chael ymwelwyr wedi cael eu llacio. Mae'r holl ymwelwyr yn defnyddio'r ystafell i deuluoedd a dim ond dau ymwelydd o'r un aelwyd sy'n cael dod. Ar hyn o bryd, nid oes hawl gan blant ymweld â'r cleifion. Adolygir y sefyllfa hon ar hyn o bryd a chawsom wybod y dylai ymweliadau gan blant ailddechrau yn fuan.  Hefyd, gall pob ymwelydd ddiheintio eu dwylo a chânt PPE priodol.

Cawsom wybod nad oedd unrhyw un wedi cael ei atal yn gorfforol yn ystod y cyfnod hwn, ac roedd y dystiolaeth a welsom yn ategu hyn. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod archwiliadau o bwyntiau clymu ar waith. Gwnaethom archwilio data a wnaeth beri peth pryder ynghylch y cynnydd mewn ffigurau hunan-niweidio bwriadol ar gyfer mis Mehefin. Trafodwyd hyn ac, o ganlyniad i wybodaeth a roddwyd a oedd yn rhoi ychydig o gyd-destun i'r ffigurau uwch, cawsom sicrwydd nad oedd angen ymchwilio ymhellach i hyn.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Mae archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Cwblhawyd yr archwiliad diweddaraf ym mis Mai 2020. Cawsom wybod bod amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau bob nos a bod y tîm cadw tŷ yn cwblhau cofnodion dyddiol o'r holl weithgareddau glanhau.

Mae dau aelod o'r staff wedi cwblhau cwrs hyfforddi ar olchi dwylo ac mae'r ddau aelod o staff ar gael i roi cyngor ac arweiniad i'r staff a'r cleifion. Mae glanweithwyr dwylo wedi'u gosod ar y wal y tu allan i ardal y ward ac mae cyflenwadau ychwanegol o lanweithwyr dwylo heb alcohol yn cael eu cadw yn swyddfa'r ward ac yn cael eu rhoi i'r cleifion.

Yn ogystal â hyfforddiant staff, mae posteri â chyfarwyddiadau yn cael eu harddangos mewn ardaloedd clinigol er mwyn rhoi gwybod i'r staff am ofynion o ran PPE, pwysigrwydd glanhau pwyntiau cyffwrdd yn rheolaidd, defnyddio weipiau priodol, a sicrhau bod y staff a'r cleifion yn golchi eu dwylo mor aml â phosibl.

Cawsom wybod bod y cleifion yn cael diweddariadau rheolaidd am COVID-19 drwy gyfarfodydd cymunedol ac y byddai unrhyw ganllawiau newydd yn cael eu trafod â'r cleifion. At hynny, roedd gwybodaeth mewn perthynas â COVID-19 hefyd ar gael ar bosteri ar hysbysfyrddau'r ward ac mewn taflenni hawdd eu deall.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom drafod y llyfryn gwybodaeth cyfredol a roddir i gleifion newydd ar y ward. Fel rhan o'r drafodaeth hon, gwnaethom gytuno y gall fod yn ddefnyddiol cael atodiad ar COVID-19 i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i'r cleifion newydd.

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Pan edrychwyd ar y swyddi gwag a'r data ar absenoldebau ni nodwyd unrhyw broblemau staffio. Cadarnhawyd hyn gan reolwr y ward a ddywedodd wrthym fod cynnydd wedi bod yn nifer y staff. Caiff adnoddau staff eu cynllunio ymlaen llaw a'u hadolygu bob dydd er mwyn helpu i sicrhau bod digon o aelodau o'r staff yn gweithio sifft i ddiwallu anghenion gofal y cleifion ar Ward Newton.

At hynny, roedd patrymau sifft wedi newid i gefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'r staff. Cawsom wybod bod y staff yn hyblyg o ran newid sifftiau, roedd system staff banc yn cael ei defnyddio a phrin y defnyddiwyd staff asiantaeth.

Yn ystod trafodaethau, cawsom wybod bod y staff yn gofidio mwy – roedd yn galonogol clywed bod gwasanaethau llesiant yn cael eu defnyddio a chawsom wybod bod systemau cymorth da ar gael i'r staff. Cawsom wybod hefyd fod yr uwch-reolwyr ar gael pan fo angen.

Parhawyd i gynnal adolygiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac i fod mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol allanol, fel eirioli, drwy alwadau ffôn a fideo-gynadledda. Roedd gwasanaethau eirioli bellach ar gael eto ar y ward.

Fel y nodwyd uchod, roedd y cleifion yn gallu cadw mewn cysylltiad â'r tîm amlddisgyblaethol o bell drwy ddulliau rhithwir. At hynny, roedd rhai cleifion yn mynd ar deithiau rhithwir o leoliadau posibl er mwyn hwyluso datblygiad cleifion, gyda dau glaf yn symud i leoliadau newydd.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Yn ystod trafodaethau, a thrwy edrych ar ddogfennaeth, gwnaethom nodi bod y cyfraddau cwblhau hyfforddiant tân yn isel. Cydnabuwyd bod hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i ohirio oherwydd anawsterau prinder staff yn ystod y pandemig. Cawsom wybod bod y cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant tân a hyfforddiant trais ac ymddygiad ymosodol yn rhan o gynllun adfer y bwrdd iechyd, a bod dyddiadau hyfforddi ar fin cael eu trefnu. Cawsom wybod hefyd fod oedi wedi bod wrth gynnal hyfforddiant oherwydd y newidiadau i ffiniau'r bwrdd iechyd, gyda bwrdd iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a bwrdd iechyd Cwm Taf yn berchen ar yr adeiladau gyda'i gilydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r meysydd hyfforddiant hyn nawr wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o

fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

# Cynllun gwella

Lleoliad:Clinig Caswell

Ward: Ward Newton

Dyddiad y gweithgarwch:25 Awst 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.
Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Llyfryn Gwybodaeth i Gleifion i gynnwys gwybodaeth am COVID-19 | 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd | Staff y ward a therapi galwedigaethol i weithio ochr yn ochr â'r cleifion mewn grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r llyfryn gwybodaeth, gyda'r nod o sicrhau ei fod yn hawdd ei ddefnyddio.<br><br>Cynnwys gwybodaeth am COVID-19. | Thomas Wilcox (Rheolwr y Ward)<br><br>Kirstie Bissmire (Cydlynydd Risg a Diogelwch) | 1 - 2 fis |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd y llyfryn wedi'i ddiweddaru yn cael ei anfon ymlaen fel tystiolaeth. | | |
| 2 | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfraddau hyfforddiant tân a hyfforddiant trais ac ymddygiad ymosodol gorfodol yn gwella. | 7.1 Y Gweithlu | Cydgysylltu â'r Cynghorydd Diogelwch Tân yn yr Adran Iechyd a Diogelwch i drefnu dyddiadau ar gyfer hyfforddiant. Oherwydd COVID-19, mae'r bwrdd iechyd yn blaenoriaethu sesiynau sefydlu ar gyfer staff newydd cyn gosod dyddiadau newydd.<br><br>Darperir cynllun o sesiynau hyfforddiant trais ac ymddygiad ymosodol ynghyd â chanrannau cydymffurfio â hyfforddiant ar ôl cwblhau'r rhaglen ailosod ac adfer. | Kirstie Bissmire (Cydlynydd Risg a Diogelwch) | 3+ mis |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Thomas Wilcox

Dyddiad: 11.09.2020